PYSGODFA GOCOS CILFACH TYWYN 2026

# DATGANIAD AGOR

**wedi'i gyhoeddi yn unol â**

**Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024**

**MAE GWEINIDOGION CYMRU**, yn unol ag erthygl 6 o *Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024*, yn **datgan** bod y gwelyau cocos yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar agor** at ddibenion pysgota neu gymryd cocos o **00:01 ar 5 Mai 2026.**

**Y diwrnodau y bydd y bysgodfa ar agor:** Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau yn unig.

**Yr Ardal**

Yr Ardal a ddiffinnir gan yr hysbysiad hwn yw ardal:

(i) ar y gorllewin, o ben atfor Pier Pen-bre i bwynt mwyaf gogleddol Pwynt Whiteford, sy'n gorwedd rhwng Marc Penllanw Llanwau Cyffredin ar lannau gogleddol a deheuol yr aber yn y drefn honno;


(ii) ar y dwyrain, o ochr atfor y rhan honno o Bont Reilffordd Casllwchwr sydd rhwng Marc Penllanw Llanwau Cyffredin ar y glannau gogledd-orllewinol a glannau de-ddwyreiniol yn y drefn honno a llinell a dynnir o ben de-ddwyreiniol y rhan honno o'r bont reilffordd tua'r de nes ei bod yn cwrdd eto â Marc Penllanw Llanwau Cyffredin;

(iii) ar y gogledd a'r de, o Farc Penllanw Llanwau Cyffredin ar lannau gogleddol a deheuol yr aber yn y drefn honno rhwng y ffiniau gorllewinol a dwyreiniol;

Rhoddir yr Hysbysiad hwn o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad yr Hysbysiad: **4 Mai 2026**

At ddibenion gwybodaeth yn unig, dangosir yr Ardal wedi'i hamlinellu mewn du ar y map isod:




**RHAGOR O WYBODAETH**

I weld rhagor o hysbysiadau a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch â:

Swyddfa Pysgodfeydd Aberdaugleddau
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven’s Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Rhif ffôn: 0300 025 3500
E-bost: Fisheries@gov.wales